Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 1


# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 40. RHIF 9 | CHWEFROR 2019 | 50c


# NAWS Y NADOLIG

## GWASANAETH CAROLAU BETHEL




*Cantorion Bethel*



*Margaret Parry a Siân (chwaer i Wena) a ddaeth yr holl ffordd o Fae Colwyn i'r oedfa*

*Lluniau gan John G. Williams*



*Gareth, Sara a Gwenllian*

## GWASANAETH BORE NADOLIG




*Harri ac Yncl Alun*



*Peter a Bethan yn dathlu gyda Carianne (tair wythnos oed) ar fore'r Ŵyl yn Lerpwl*

## RHODD I YSBYTY FRENHINOL




*Beryl ar ran Dydd Golff y Cymry yn cyflwyno siec haelionus i elusen Ysbyty Frenhinol*

Golygyddol

# 'Treulio'r oriau yn dy waith'

## - gan D. Ben Rees

Ciliodd 2018 i flynyddoedd y gorffennol tra mae 2019 yn perthyn i gyfnod na wyddom ni ddim byd eto amdano, ond byw mewn gobaith, a dyheu am gael gweld a phrofi yr hyn a baratowyd ar ein cyfer gan 'droeon yr yrfa'. Mae'r flwyddyn nesaf fel y flwyddyn a'n gadawodd yr un fath o ran maint yr oriau. Y mae gennym wyth mil a wyth cant o oriau i fyw mor llawn a llwyddiannus ag y medrwn. Dyna oedd hi yn 2018, 8,800 o oriau, felly y bydd hi yn 2019!

Dymuniad y Blaid Lafur Brydeinig yw fod y wlad yn 2019 yn mabwysiadu wythnos o bedwar diwrnod o ran gwaith, a tri diwrnod i ymlacio a mwynhau pêl-droed a chwaraeon, i addoli ac i gnocio drysau yn cynnig rhagor o addewidion ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol. Go brin y cawn un yn 2019, mwy na thebyg 2020!

Dyhead pawb a phob un bron yw llai o oriau gwaith a mwy o oriau i ymblesera. Bu gwahaniaeth mawr o 1870 i 2019 o ran oriau gwaith ym Mhrydain. Disgwylid i löwr a gwas fferm weithio yn 1870 o leiaf 60 i 70 awr yr wythnos, neu 3,000 o oriau mewn blwyddyn. Bu cryn newid o 70 awr i 40 awr a hyd yn oed llai. Hysbyswyd y swydd o gynorthwydd bugeiliol ar lannau Mersi ym mis Gorffennaf 2018 fel swydd o 35 awr yr wythnos, llawer llai na disgwyliad i weinidog mewn gofalaeth. Yn yr Almaen lle mae'r Undebau Llafur yn rymus (llawer mwy grymus nag ydyw'r Undebau ym Mhrydain) bu newid syfrdanol. Bellach mae hawl gan weithwyr yr Almaen i fwynhau wythnos lawn amser o 28 o oriau yn 2019. Gallwn ddyheu am amodau yr Almaen. Llwyddodd ein Llywodraeth yn Llundain i gael trwch y boblogaeth mewn gwaith ond y mae'r tâl amdano yn ystyfnig o isel. Mor isel fel bod llu o'r bobl hyn sydd mewn gwaith llawn amser, yn methu cael dau ben llinyn ynghyd. Dyna pan fod angen canolfannau sydd yn rhannu bwyd yn rhad ac am ddim i'r gweithwyr isel eu cyflog! Y gwir yw fod yr oriau a weithir yn yr Unol Daleithiau a Phrydain yn raddol gynyddu yn lle lleihau. Bum yn darllen yn ddiweddar gyfrol sydd yn proffwydo fel y bydd galwedigaethau yn diflannu o un i un. Mor wir yw hynny ym myd trafnidiaeth. Dadleuir fod y mwyafrif o bobl yn anfradloni eu cyfoeth wrth ddefnyddio dau gar modur. Pan gofiwn fod pris insiwrans car modur y tu hwnt i bob dirnadaeth. Anaml y clywir am berson ifanc o deunaw hyd un-ar-hugain oed, sydd yn cael yr hawl i yrru modur heb orfod talu pymtheg cant am insiwrio'r car. Yr un yw'r stori yn hanes taid. A wyddoch chwi am berson bedwar ugain oed sydd yn cael yr hawl i ddreifio BMW am lai na mil o bunnoedd y flwyddyn? Hoffai *Yr Angor* glywed oddiwrtho er mwyn hysbysu y byd fod cwmni insiwrans ar gael sydd yn trin pobl ifanc a phobl ar bensiwn yn deg!!

Ni chawn drafferth i dreulio'r oriau pan yr ydym wedi ymddeol gan fod y compiwter yn declyn sydd yn llyncu amser. Cofiaf un o Gymry Lerpwl yn dweud wrthyf ei fod wedi treulio tair awr noswyl y Nadolig yn darllen *Cymru Fyw*, gwylio gêm o Siapan ar Sky, a darllen hanner dwsin o fywgraffiadau *Wicipedia*. Braf cael darllen *Golwg 360* ac ambell i gyfrol ar *kindle*. Buan y diflanna yr oriau pan yr ydym yn coginio, yn gwylio Syr Bryn Terfel ar y teledu (cawsom wledd ganddo ar noswyl y Nadolig) neu *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* a'r meistr ei hun Huw Edwards yn cyflwyno. Mae gwahaniaeth rhwng seren a seren mewn gogoniant. Crewyd Syr Bryn Terfel a Dr. Huw Edwards i gyfathrebu, i ganu, i addysgu. Fel y dywedodd un arbenigwr yn ddiweddar:

> ***Today's knowledge workers are surrounded by clever colleagues tackling interesting and challenging problems that matter in the real world. Why should they sacrifice time spent in such rewarding ways for hours spent on leisure activities that are often less satisfying?'***

Digon teg. Gwir i gyd. Weithiau mai gwaith graenus yn well na gwylio chwaraeon di-lewyrch. Dyna pryd y deallaf yr emynydd: 'Gwaith a gorffwys wedi mynd yn un'. Felly y bydd hi i lawer un ohonom yn 2019!

## YR HEN ARFERIAD

Mae anwyd a rhyw hen beswch cras arnaf ers tair wythnos bellach ac yn gyndyn o adael er gofyn i'r meddyg lleol am feddyginiaethau. Y profion poer yn glir a disgwyl am ganlyniadau'r pelydr X ac felly dim 'antibiotics'. Neithiwr, nos Sadwrn, gofynnem: "Ydan ni am fynd i'r capel fory?" "Gawn weld sut y byddwn yn y bore – mae Dr Ben yno ac mae hi'n wasanaeth y Cymun".

Deffro bore Sul a'r peswch yn waeth er ddim yn teimlo'n wirioneddol wael. Penderfynu peidio mynd buasai gallaf. Rhywsut nid oedd hyn yn 'iawn' am y gallem fod wedi mynd a bod yn bresennol i dderbyn yr oll oedd i'w gael. Y gwasanaeth a'i neges; uno wrth fwrdd y cymun ac yn bwysig iawn iawn gynhesrwydd y gynulleidfa tuag atom. Y dyddiau hyn anaml yr ydym yn gadael ein cartref oherwydd caethiwed Marian ac y mae gofal pobol 'y capel' amdanom yn amhrisiadwy.

Felly rwyf adra ac yn gwrando ar wasanaeth radio dan arweiniad y Parch Nan Powell Davies. Mae hyn yn golygu nad ydym yn y capel yn ôl ein harfer. Beth ydyw'r 'arferiad' yma mae Marian a finnau wedi ei ddilyn gyda'n gilydd am dros drigain mlynedd bellach?

Ceisio dweud ydwyf fod yr 'arferiad' o fynd i'r capel ar y Sul yn fwy pwysig yn ein bywydau nac ydym yn ei sylweddoli nes peidio neu fethu mynd. Meddyliaf am ein cyfeillion a'r aelodau sydd heb fedru mynd ers wythnosau a blynyddoedd ac wedi eu tlodi a'i hamddifadu o'r moddion ysbrydol. Hyderaf y bydd Marian a finnau yn ein lle ym Methania'r wythnos nesaf ac yn gwerthfawrogi ein hiechyd ysbrydol dipyn yn fwy. Diolch am yr arferiad sydd yn ein rhwymo dipyn weithiau ond yn rhoddi'r iawn werthoedd ar fywyd.

**John Lyons**

## RHODD I YSBYTY FRENHINOL O'R GYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL


Gwnaethpwyd elw o £1500 yn nghystadleuaeth Golf Cymry Lerpwl 2018 sydd wedi ei rannu rhwng Cronfa Dathliadau yr Angor 2019 ac Uned Toriadau Gwddf y Femur, Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Fe drosglwyddwyd y siec o £750 i'r Uned gan Beryl Williams gan ddiolch am y gofal a gafodd yno.

Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 3

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs MARY WILLIAMS

## Garswood ger Haydock
## (1945-2018)



**Yn ei chartref cysurus yn Garswood bu farw Mrs Mary Williams ar Sadwrn, 22 Rhagfyr ar ôl brwydro'n galed ag afiechyd blin am ddeuddeg mis. Ganwyd hi ar 16 Ebrill 1945 a'i magu ar fferm Bodriala yn Abererch, yr hynaf o bump o blant. Deil ei brawd, Eifion, yr efeilliaid Margaret a Elizabeth, a'r ieuengaf Merfyn a adnabyddir fel Twm i fyw yng ngwlad Lleyn. Cafodd fagwraeth freiniol yn helpu ei rhieni, nain a taid ar y fferm, a mwynhau Ysgolion Abererch a Pwllheli. Penderfynodd ar yrfa nyrs a dod i Ysbyty Leasome, Wallasey i'w hyfforddi. Bu am gyfnod yng Ngholeg Hyfforddi'r Nyrsus yn Woolton a chwblhau'r hyfforddiant yn Ysbyty John Baggot, Lerpwl, Ysbyty Heswall a Ysbyty'r Gwragedd yn Catherine Street.**

**Cyfarfu gyda Gareth, un o Gymry Lerpwl ac a fagwyd yng nghapel Edge Lane pan oedd yn Woolton yn 1963 ac fe'i priodwyd ar 7 Awst 1965. Mwynhaodd y ddau 53 o flynyddoedd yn y bywyd priodasol. Ar ôl byw am gyfnod yn Fairfield a Hampstead Road symudwyd i gyrion Wigan lle adeiladwyd byngló newydd sbon iddynt. Ganwyd y mab hynaf Robert John yn Lerpwl yn 1966, a galwyd ef ar ôl tad ei fam, Robert John Griffith, gŵr cymeradwy yn ardal Abererch. Ganwyd yr ail fab Mark Wyn yn 1968 yn y bynglo, ac fe symudwyd hwy i'w cartref newydd yn Garswood yn 1970. Hyfrydwch mawr oedd croesawu y trydydd mab Phillip Anthony, yn Mehefin 1972. Gofalodd y fam ei bod yn mwynhau gwyliau braf ar fferm Bodriala yn eu plentyndod gan fod ganddi feddwl mawr o wlad Lleyn, y diwylliant Cymraeg a'r holl draddodiadau. Dyna pam iddi drefnu fod un o ganeuon John ac Alun yn cael ei chlywed yn y gwasanaeth angladdol.**

**Yn Garswood bu hi a'i phriod yng ngofal Clwb Ieuenctid Garswood am flynyddoedd yn yr wythdegau. Pan yn ferch ifanc yn Abererch bu yng ngofal yr organ yng ngwasanaethau'r Sul, a gwyddai yr emynau cyfoethog ar ei chof. Ar ôl i'r bechgyn briodi a magu teuluoedd cafodd Mary bleser mawr ymysg yr wyrion a'r wyresau. Gwelwyd Nathan sy'n ddeunaw oed, mab Robert a Karen yn cario'r elor ar ddydd yr arwyl. Astudia Chloe, ugain oed, yn y Brifysgol tra mae Sophie yn yr Ysgol ac yn bymtheg oed. Y mae mab a merch Phillip a Clare, sef Abbie sydd yn bymtheg a Luke, yr ieuengaf, sydd yn un-ar-ddeg fel y rhelyw o'r teulu yn ymdeimlo yn fawr y golled gan fod nain yn meddu ar bersonoliaeth gref, ac wrth ei bodd yn gweld ei thylwyth yn tyfu yn fodau gyfrifol.**

**Teithiau hi a'i thylwyth yn gyson i'r hen wlad. Byddai Gareth a hithau yn aros ar aelwydydd ei chwiorydd Margaret ac Elizabeth. Pan ymddeolodd Gareth Williams o'i swydd bwysig ym myd peirianeg byd y compiwter yn y flwyddyn 2000 prynwyd carafan ysblennydd ym Mhwllheli, a manteisiodd y ddau yn fawr o'r cyfleusterau hyn i grwydro penrhyn Lleyn. Gwyddai pob mangre a bwriedir gwasgar yr hyn sydd yn farwol uwchlaw Aberdaron (mangre bwysig yn hanes ei theulu) ar y ffordd i Uwchmynydd yn edrych allan ar Ynys Enlli.**

**Daeth cynulleidfa gref ynghyd i dalu'r gymwynas olaf, o leiaf deg ar hugain o Gymru, yn Amlosgfa St. Helens, Rainford Road, St., Helens ar bnawn Iau, 10 Ionawr 2019. Roedd y gwasanaeth o dan fy ngofal a dyma'r nawfed aelod o'r teulu y bum yng ngofal ei angladdau yn ystod y deg mlynedd ar hugain diwethaf. Credai Mari Williams fel y bardd a'r ysgolhaig o Lerpwl, nad oedd mangre debyg i wlad Lleyn. Englynodd J. Glyn Davies i'r fro dirion honno fel hyn yn y gyfrol *Cerddi Edern* (Lerpwl, 1955):**

***Heulwen ar hyd y glenydd - a haul hwyr***
***a'i liw ar y mynydd;***
***Felly Lleyn ar derfyn dydd –***
***Lle i enaid gael llonydd.***

**Gwyddai hi yn dda am y 'lle i enaid gael llonydd'.**

# CORNEL Y TRYSORYDD



## CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Mrs Gwen Rigby, Mossley Hill | £20.00 |
| Mr a Mrs Selwyn Jones, Penmynydd | £25.00 |
| Mrs Ann Lees, Cressington | £20.00 |
| Mr a Mrs Meirion Evans, Allerton | £20.00 |
| Mrs Gwen Jones, Allerton | £25.00 |
| Mr a Mrs Bryan Jones, Bae Colwyn | £20.00 |
| Mr a Mrs John Wyn Jones, Abertawe | £20.00 |
| Naws y Nadolig re-Margaret Annwyl Williams | £95.00 |
| Mr a Mrs Geraint Evans, Bull Bay | £15.00 |
| Mrs Mary C. Williams, Bae Cemaes | £12.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llwydiarth | £20.00 |
| Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan | £30.00 |

**Cyfanswm £322.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Blin gennym dderbyn y newydd am farwolaeth Viv Cole, Ffordd Ddraenen Ddu, West Cross, Abertawe yn 85 mlwydd oed. Bu ar *dialysis* am flwyddyn a hanner, ac anfonwn ein cofion fel eglwys at ei briod Undeg Cole. Bu y ddau yn briod am 60 o flynyddoedd ym mis Hydref 2018. Blynyddoedd dedwydd fel y cofiwn hwy yn Lerpwl. Rhoddodd Mrs Undeg Cole flynyddoedd o wasanaeth i gapel y Bedyddwyr Cymraeg ac fe'i hetholwyd yn flaenor yn eglwys Bethania ychydig wythnosau cyn iddynt symud i fyw i Abertawe. Fel y dywedodd Undeg: 'Amser hapus iawn i ni, oedd byw yn Lerpwl – Atgofion melys'. Dyna'n teimlad ninnau ym Methania, a braf oedd cael cynulleidfa undebol o Bethel a ninnau ar drothwy y Nadolig. Yn ddiweddarach cynhaliwyd Cinio Blynyddol yr Eglwys yng ngwesty y Royal, a drefnwyd ar ein rhan gan Jim ac Elin Boyd. Agorwyd y cinio gyda gras o flaen y bwyd a offrymwyd gan y Parchedig David Williams, Crosby. Braf oedd cael croesawu y cleifion i'r wledd, Mrs Mena Edwards, Blundellsands, Mrs Marian Lyons, Knowsley Village a Mrs Meinwen Rees, Allerton ein horganyddes. Diolchgar ydym i Mrs Rhiannon Liddell am fodloni i chwarae'r organ yn y ddwy oedfa undebol. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn. Diolchodd John P. Lyons yn ei ffordd ddeheuig am gynnal Dathliadau pwysig o addoli a chymdeithasu – yng Ngŵyl y Geni, a dymunodd i bawb o selogion Bethania bob bendithion yn 2019.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom aml i wledd wythnosau olaf y flwyddyn. Braf oedd cael cwmni Mrs Siân Morris, Llanelwy i'n cyfarwyddo a'n harwain ar lwybr addoliad. Bu'r Gymdeithas Gymraeg yn cefnogi mewn oedfa o gorolau a braf yw cael gorffen y flwyddyn wedi cwblhau yr holl ofynion a fu arnom.

Yr ydym yn edrych ymlaen yn Seion i gyfraniad a gweithgarwch Bugeiliol y Parchedig Robert Parry, BD. BMus, Wrecsam i'n plith y tymor nesaf. Cawn ei gwmni ar Sul, 24 Chwefror. Mae yn weinidog profiadol a dawnus. Ordeiniwyd ef gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 1996 a derbyniodd alwad dros Glawdd Offa'r adeg honno i ofalaeth Birmingham, Coventry a Wolverhampton lle y bu am naw mlynedd. Derbyniodd alwad i Eglwys y Groes, Wrecsam yn 2005, ac yn 2013 i Gapel St. John's Street, Caer, a bellach am y ddwy flynedd nesaf bydd yn bugeilio a gweinidogaethu yng nghwmni y Parchedig Ddr. D. Ben Rees yn Nosbarth Lerpwl. Bydd yn dechrau ar ei waith yn Seion ar 1 Ebrill 2019.

**Rhaghysbysiad i'n haelodau**
**Cynhelir Cyfarfod Comisiynu y Parchedig Robert Parry ar bnawn Sadwrn, 4 Mai 2019 am 2 o'r gloch yng nghapel Bethel, Heathfield Rload, Lerpwl**
*(ceir rhagor o fanylion yn yr Angor nesaf).*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Erbyn hyn rydym oll newydd gamu dros drothwy'r flwyddyn newydd a chyfle i ni edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Mentrwn ymlaen ar daith bywyd gan ddweud 'Bodlon ydym os cawn ymaflyd yn dy law'. Bu bwrlwm o weithgareddau ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

*Nos Fercher, Tachwedd y 7fed:* traddododd ein gweinidog ddarlith gynhwysfawr iawn yn yr Henaduriaeth yn Wrecsam ar y testun 'Cloriannu y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-18'. Bu ymateb y gynulleidfa yn werthfawrogol a diolchgar am yr holl waith ymchwil a wnaeth i baratoi ar ein cyfer.

*Nos Lun, Tachwedd 12*. Noson o'r Gymdeithas Lenyddol gyda 'Pawb a'i Farn', ac ar y panel Dr. Rhys Davies, Rhiannon Liddell a Brian Tomas gyda'r gweinidog yn Holwr. Dyma rai o'r cwestiynau. Tybed beth fyddai eich ateb chwi?

1. Ydych chi'n cytuno ag un sylwebydd, a ddywedodd? 'Mae arlywydd America, Donald Trump yn wleidydd galluog iawn'?
2. Pe baech yn byw yn 1914 ac yn ddeunaw oed a fyddech yn barod i wirfoddoli i frwydro dros Brydain yn erbyn yr Almaen?
3. Sylweddolodd Aneurin Bevan y byddai y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn bwll di-waelod ac yn amlwg felly saith deg o flynyddoedd yn ddiweddarach. Pa gyngor fyddech yn ei roi i oresgyn y broblem ariannol?
4. Pe baech chi'n cael pleidlais i ddewis prif weinidog newydd i Gymru - i bwy y byddech yn rhoi eich pleidlais, i Eluned Morgan, Mark Drakeford neu Vaughan Gethin?
5. Brexit, ai dyma'r gair mwyaf ofnadwy i chi yn bersonol?
6. Pa ddinas yr hoffech ymweld â hi yn y dyfodol a pham?

Bu ymateb y panelwyr yn ddoeth a chydbwys. Diolch iddynt am fod mor agored ac i'r holwr medrus Dr. Rees.

Ar fore *Iau y 15fed o Dachwedd* daeth criw da o wirfoddolwyr i lanhau yr adeiladau a diolch iddynt.

Ar y *26ain o Dachwedd* roedd hi'n Noson y Dysgwyr yn y Gymdeithas Lenyddol a gweler adroddiad Siân Hartley o'r noson a diolch Siân am eich gwaith yn cynorthwyo y dysgwyr ar nos Lun.

Yn y cyfarfod olaf o'r Gymdeithas ar y *nos Lun y 10fed o Ragfyr* sgwrs gan Nan Hughes Parry ar 'Nadolig y Cofio', a Dr. Rees yn llywyddu. Diolch i Gwenfyl, Lilian, Carys, Enid am ofalu am y baned



***Aelodau Cymdeithas Cymry ac Aelodau Capel Seion, Penbedw yn mwynhau tê Nadolig ar ôl y Cyd-Wasanaeth Nadolig ar Ddydd Sul 9ed Rhagfyr 2018***




***Nan Hughes Parry***

a'r danteithion ar ôl pob cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol.

*Bore Sul, Rhagfyr 16eg* oedfa undebol o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a Chantorion Bethel o dan arweiniad Margaret Anwyl Williams "Dewch i Fethlehem". Dyma oedfa y mae hir ddisgwyl amdani a'r côr wedi ymarfer yn gyson o dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith, ond yn anffodus bu raid iddo fynd i'r ysbyty ac roedd pryder y gynulleidfa amdano ond da ei weld yn ôl yn y tresi unwaith eto.

Cafwyd bore coffi a danteithion Nadoligaidd ar ôl yr oedfa, a'r cyfle olaf i gymdeithasu cyn y Nadolig.

Bu oedfa y 23ain dan ofal y blaenoriaid a'r aelodau, oedfa ddydd Nadolig a'r Sul canlynol dan ofal Dr. John Williams, a mawr ddiolch iddo.



***Bore Nadolig***
***Dafydd Huw o Gaerdydd ac Ifor ar ddiwedd yr oedfa***

Cafwyd achlysur hapus iawn yn dathlu pen-blwydd Mrs Elan Jones yn 90 oed yng Nghlwb Golff Woolton. Mae hi'n ffyddlon i'r oedfaon bob Sul a nson waith a'i chyfraniad i'r eglwys ar hyd y blynyddoedd yn werthfawr.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. Gwyn Jones, mab Gwerfyl a Gwilym Jones a brawd i Huw. Bachgen hawddgar a gwên ar ei wyneb bob amser ac yn barod ei sgwrs. Bu ei arwyl ym Methel, Tachwedd 20fed ac yna'n dilyn yn Springwood. Cydymdeimlwn â Huw a fu mor ofalus o'i frawd. Roedd y ddau wasanaeth o dan ofal ein gweinidog Dr. D. Ben Rees a cheir coffâd yn y rhifyn hwn.

Anfonwn ein cofion fel eglwys atoch chi sydd yn methu mynychu'r oedfaon a chofiwn yn gyson amdanoch yn ein gweddïau yn y capel a "Blwyddyn Newydd Dda" i chi i gyd.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar y nos Fawrth gyntaf ym mis Tachwedd daeth Guto Williams atom i



***Elan Jones gyda dwy o'i ffrindiau, Eirlys Evans a Norma Owen***

sôn am ei waith yn gyfarwyddwr drama ar y teledu. I'r rhai ohonom sydd yn gwylio operau sebon yr oedd clywed am yr holl waith paratoi sydd yn mynd ymlaen cyn i ni weld unrhyw bennod yn agoriad llygad i ni gyd. Ar hyn o bryd mae Guto yn gweithio ar yr opera sebon 'Hollyoaks' ond mae hefyd wedi gweithio ar 'Pobl y Cwm', 'Coronation Street', 'Holby City' a'r 'Gwyll'. Mae hefyd yn ysgrifennu sgriptiau ac wedi ysgrifennu nofel 'Chwilio am Mr. Lloyd' a enillodd Wobr Tir Na Nôg am lyfr gorau y flwyddyn yn 2016. Bu Guto'n actor am ychydig, wedyn cyflwynydd teledu cyn cael swydd tu ôl i'r camera. Gwnaeth raglenni dogfen ond ei nod oedd bod yn gyfarwyddwr. Cyfarwyddwr yw'r person sydd yn dehongli y sgript i beth sydd yn cael ei weld ar y teledu. Mae'r gwaith yn dechrau pan mae'r sgript yn cyrraedd.

Rhaid iddo ddarllen a dehongli y sgript ac wedyn cyfarfod gyda'r tîm golygu. Mae addasu sgript yn cymeryd dyddiau ac mae angen llawer o amynedd yn y gwaith.

Mae'n swydd unig iawn ar adegau gan mai'r cyfarwyddwr sydd yn gyfrifol yn y pen draw am holl gyfraniadau a phenderfyniadau artistig y tîm. Wedyn



***Guto a Rhiannon***

rhaid cyfarfod y cynhyrchydd a phawb arall sydd yn gyfrifol am y set, gwisgoedd, colur, camera, sain, offer arbennig a'r actorion (ac mae rhai o rhain yn anodd i'w trin). Rhaid i'r cyfarwyddwr wybod yn union beth mae eisiau ei wneud. Rhaid cael rheswm am bob symudiad. Wedi'r ffilmio mae'n rhaid golygu a rhoi yr holl 'takes' at ei gilydd.

- Mae un diwrnod o ffilmio 'Hollyoaks' yn cyfrannu 5-7 munud i'r rhaglen derfynol.
- Mae pob pennod yn para am 23 munud.
- Mae'n cymeryd 22-24 diwrnod i wneud 5 pennod.

Mae Guto yn mwynhau ei waith am ei fod yn medru dweud stori trwy lygad y camera.

Yr wythnos wedyn cawsom gwmni Hywel Wyn Edwards, cyn Drefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Gogledd a'r De. Ei eisteddfod gyntaf fel Trefnydd oedd Eisteddfod 1995 yn Abergele. Bu yn y swydd am 20 mlynedd. Roedd yn swydd ddiddorol a heriol. Rhaid oedd cael trefn gyda'r seremoniau a'r cystadleuthau. Roedd mwyafrif llethol o'r gweithwyr yn wirfoddolwyr. Bu raid iddo deithio llawer ar hyd a lled Cymru ac yn ystod ei gyfnod fel Trefnydd a gweithiodd gyda 8 Archdderwydd. Pan yn trefnu Maes i'r Eisteddfod rhaid gweithio gyda'r heddlu, gwasanaeth ambiwlans, gwasanaeth tân, Cyngor Sir ac Awdurdod yr Amgylchfyd! Cawsom ganddo hanesion am gymeriadau a digwyddiadau yr Eisteddfod. Ef yw un o'r ychydig rai yr ychydig rai sydd yn gwybod os oes teilyngdod am y Goron neu'r Gadair am fisoedd cyn yr Eisteddfod. Mae pob Eisteddfod yn cael ei phroblemau a gall y tywydd ddylanwadu yn drwm ar yr wythnos. Mae'n edrych yn ôl ar ei amser fel

Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 6

Trefnydd gyda balchder a gyda diolch am gael cyfaifod llu o bobl ymroddedig a dawnus.

Ar Dachwedd 20fed cawsom noson gerddorol yng nghwmni Mair Carrington Roberts yn sôn am gerddoriaeth traddodiadol Cymru. Dechreuodd trwy sôn am alawon telyn a oedd yn perthyn i Oes y Pencerdd. Roedd John Parry (1710 -1782), y telynor dall, yn un ohonynt. Roedd yn delynor i deulu Wynnstay. Daeth John Parry o dan dylanwad Handel a J.S. Bach a byddal yn chwarae peth o'u gwaith am eu bod yn debyg i alawon gwerin. Morfa Rhuddlan yw un o'r alawon hynaf sydd ar gael. Yn 1742 cyhoeddodd John Parry gyfrol o alawon Cymreig sef *'Ancient British Music'*. Traddodiad offerynol oedd yr alawon telyn ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuwyd ysgrifennu geiriau i gyd fynd a'r gerddoriaeth.

Ceiriog oedd yn gyfrifol am lawer iawn o'r geiriau yma. Ef a ysgrifenodd y geiriau i'r alawon 'Ar hyd y nos' a 'Dafydd y Garreg Wen', ond John Parry oedd yn gyfrifol am yr alawon gwreiddiol. Yn yr ugeinfed ganrif tyfodd



*Nan yn rhoi anrheg i Norma*

cenedlaetholdeb mewn cerddoriaeth ond yng Nghymru nid oedd sôn am alawon gwerin. Casglwyd nifer o alawon gwerin



*Mair Jones yn lwcus yn y raffl*

gan Ruth Herbert Lewis a Mary Davies, gwraig cofrestydd cyntaf Coleg y Brifysgol, Bangor. Bu'r ddwy yn crwydro o amgylch Cymru yn gasglu hanes a recordio rhai o'r alawon. Mae alawon telyn yn parhau heddiw yn y traddodiad Cerdd Dant. Rhaid i ni ymfalchio yn ein traddodiad gwerin yng Nghymru. Cawsom gyfle i wrando ar rhai alawon telyn a rhai o'r alawon gwerin a chyfle i ganu rhai ohonynt.

Y Nos Fawrth ganlynol cawsom gwmni Dr. Gareth Hughes, Y Fali, yn sôn am longddrylliad y llong 'Leinster' ar Hydref 10fed, 1918 pan oedd ar ei ffordd o Kingstown (Dun Laoghaire) i Gaergybi. Cafodd y llong 'Leinster' ei hadeiladu yn iard Lairds, Penbedw a lansiwyd hi i'r afon Menai yn 1897. Yr oedd yn un o bedair llong a gafodd eu hadeiladu ym Mhenbedw ar gomisiwn 'City of Dublin Steam Packet Company' sef 'Munster', 'Connaught', 'Ulster' ond 'Leinster' oedd y gorau a'r mwyaf moethus. Defnyddiwyd y llong i gario llythyrau rhwng Kingstown a Chaergybi. Yn ystod y Rhyfel Byd Gyntaf roedd llongau tanfor yr Almaen (U Boats) yn hwylio ym Môr yr Iwerydd ac ar hyd arfordir Cymru. Erbyn hyn 'roedd y llong wedi ei phaentio mewn cuddliwiau. Ar ddiwrnod y llongdrylliad roedd 70 o griw ar y llong, 35 o Gaergybi a 35 o Iwerddon. 'Roedd 22 o ddynion yn sortio llythyrau ar y siwrne o Kingstown i Gaergybi ac roedd 490 o filwyr yn hwylio ar y llong hefyd. Gadawodd 'Leinster' Kingstown am 9.10am a dylai fod wedi cyrraedd Caergybi erbyn amser cinio. Taniwyd tri torpedo gan U-boat yn ymyl y goleulong Kish tu allan i Fae Dulyn a suddodd y Leinster yn gyflym. Hwn oedd y trychineb gwaethaf ym Môr yr Iwerydd. Bu farw tua 596 o bobl. Nid oedd y 'Leinster' yn cario arfau na nwyddau.



*Cinio Nadolig Cymdeithas Cymry Lerpwl*



*Canu gyda Mair Carrington Roberts yn Cymdeithas Cymry Lerpwl*



*Cymdeithas Cymry Lerpwl yn nhŷ Margaret*

Cafodd y drychineb effaith mawr ar drigolion Caergybi ac ar gwmni perchnogion y llong. Ni chynhaliwyd ymholiad swyddogol i'r achlysur. Bu llawer o sôn yn y wasg fod yn rhaid dial ar yr Almaen ac wedi'r cadoediad ychydig o amser wedyn fe gollodd yr Almaen lawer o dir ac arian ac oherwydd hyn fe heuwyd gwreiddiau yr Ail Ryfel Byd. Mae llongddryiliad y 'Leinster' wedi dylanwadu ar hanes Ewrop a'r byd yn yr ugeinfed ganrif - dyma'r llong a newidiodd y byd.

I orffen yr hanner yma o'r tymor cyn y Nadolig cafwyd dwy noson hwyliog. Bu'r cinio Nadolig ar Rhagfyr 4ydd yng Nghlwb Golff Woolton. Roedd y bwyd yn ardderchog a chafwyd digon o amser i sgwrsio. Braf oedd gweld tair o fyfyrwyr wedi ymuno â ni. Diolch i Norma am y paratoadau.

Nos Fawrth wedyn cawsom groeso yng nghartref Margaret Anwyl Williams gyda noson 'Naws y Nadolig'. 'Roedd wedi paratoi danteithion ar ein cyfer ac wedi'r bwyta a siarad cawsom ganu carolau gyda Margaret yn cyfeilio ar y delyn. Diolch iddi ac Alan am eu croeso. Gwnaed elw o dros £90 tuag at 'Apêl Yr Angor'.

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Manceinion yma yn cyfarch pawb ar ddechrau blwyddyn newydd ac yn diolch i Dduw am ei ffyddlondeb yn ystod 2018. Cawsom ginio Nadolig traddodiadol yn y gwesty The Swan and Two Nicks yn Dunham ar Ragfyr 6ed gyda'r hen ystafell yn glyd a'r awyrgylch yn llawen. Diolchwn i bawb a fu ynglyn â threfnu'r achlysur hapus hwn.

Ar y 13 Rhagfyr, daeth y Parchedig Ddr D. Ben Rees i'n difyrru yn ein cyfarfod olaf o Gymdeithas Cymry Manceinion cyn yr ŵyl. Mewn noson arbennig rhoddodd Dr Ben Rees ddetholiad eang o farddoniaeth ac englynion ar y thema o Nadolig,. Fel arfer cafodd pawb eu plesio yn fawr gan ei sgwrs a'u syfrdanu gan wybodaeth eang ein gŵr gwadd. Diolch yn fawr iddo, ac i Mr Meirion Evans am ei gludo yma yn ddiogel.



*Cyfeillion Altrincham a Noddfa Oaker Avenue yn mwynhau cinio Nadolig yn y 'Swan with Two Nicks' yn Dunham Massey.*

Ar y Sul olaf cyn y Nadolig, roedd ein gwasanaeth carolau ddwyieithog yn fendithiol iawn gyda'r capel yn Oaker Avenue yn reit llawn a rhaglen amrywiol o adroddiadau, darlleniadau a carolau yn rhoi cyfle i ni foli Duw a chofio'r hen, hen hanes unwaith eto o'r Baban Iesu yn geni yn Bethlehem gynt. Roedd Mr Trefor Davies yn cyfeilio ar yr organ gyda Mrs Bethan Habron James yn canu'r ffidil yn ei ffordd unigryw a dawnus ei hun. Ychwanegodd yr eitemau gan Trefor a Glynn at awyrgylch gweddigar y gwasanaeth ac roedd yn hyfryd i weld aelodau o deuluoedd y ffydloniaid yn ymuno a rhai o'n cymdogion ar Oaker aVenue. Roedd y casgliad at st Anne's Hospice.

Erbyn hyn, mae Nadolig drosodd a ninnau wedi camu i 2019. Edrychwn ymlaen at flwyddyn newydd o addoliad yn y capeli ym Manceinion. Ond sylweddolwn fod rhai yn cael problemau iechyd ac angen ein gweddi a'n consarn. Dymunwn flwyddyn dangnefeddus i bawb.

## CWIS NADOLIG YR ANGOR

***Siomedig iawn, ni fentrodd neb i ateb yr ugain cwestiwn.***

Cafwyd esgusodion am y difaterwch. Dim amser i ateb cwestiynau gan ein bod yn prynu anrhegion i'n teuluoedd. Digon o esgus! Dywedodd un chwaer fod y cwestiynau yn rhy anodd yn arbennig rhifau 7, 8, 10, 11, 12, 13. ***Mae 7 yn anodd – ond dim ond un o'r lleill.***

Rhif 8 – enw cyntaf Syr O. M. Edwards, wel Owen.

Rhif 10 – Pa wasg a gyhoeddodd 'Gwaedd yng Nghymru' – Cyhoeddiadau Modern Cymreig.

Rhif 11 – Yr ateb Dr. Howell Hughes oedd brenin Ward 8 yr Ysbyty Frenhinol.

Ta waeth, mae drosodd, a phenderfynwyd peidio cynhyrchu cwis arall i rifyn Chwefror. Gobeithio'n wir y gwnaiff rai o'r bobl sydd yn gwenu yn braf ym Mhenbedw a Lerpwl ar ôl ennill aml i gwis yn 2018 gofio am Cwis Yr Angor rywdro yn 2019!

Rhoddwn wobr i chwi yn englyn cofiadwy Riachard Jones i Washi Bach, crwydryn ym Môn. Dyma sydd ar ei garreg fedd (bydd hwn yn gwestiwn y cwis nesaf):

O'i gopa i'w odra'n grwydryn – mewn cotiau<br>
Yn haenau fel nionyn,<br>
Byw'n ddi-rent, bwgan plentyn<br>
Yn destun gwawd, tlawd, di-lun.

Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 8


*YSGRIF GOFFA:*

# GWYN MORRIS JONES

## Heswall (1949-2018)

**Cynnyrch cartref diwylliedig iawn yn ninas Lerpwl oedd Gwyn Morris Jones. Ei fam yn un o Gymry Lerpwl, Gwerfyl Morris, aelod o deulu nodedig a gyfrannodd yn helaeth dros ben i gapel Bethlehem, Douglas Road a chapeli eraill yn Lerpwl ac ardaloedd eraill. Ei dad Gwilym Meredydd Jones yn athro ymroddedig a ddaeth yn un o Brifathrawon dylanwadol y ddinas. Ar ôl ei ryddhau ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd o'r brwydro symudodd yn athro i Lerpwl a dod yn weithgar dros ben yn Aelwyd yr Urdd Anfield, ac yn y bwrlwm gweithgarwch hyn cyfarfu gyda Gwerfyl Morris, ac yn 1948 priodwyd y ddau a sefydlu cartref yn Edith Road gerllaw stadiwm Clwb Pêl-droed Lerpwl. Ac yn 1949 ganwyd Gwyn ac yn ddiweddarach ei frawd Hugh. Aeth Gwyn i Ysgol Gynradd Anfield ac i gapel Presbyteraidd Anfield lle yr etholwyd ei dad yn flaenor yn 1953. O Ysgol Anfield fe'i derbyniwyd i Ysgol Dingle Lane, Aigburth, ac yr oedd ei dad, yn ddirprwy Brifathro Ysgol Mathew Arnold. Gadawodd yr Ysgol a chael ei dderbyn i weithlu Robert Jones, yn Upper Parliament Street, ac yna i Grafton Street. Roedd y swydd y bu ef ynddi am gyfnod yn golygu sgiliau arbennig fel cysodydd, a chofiaf yn dda galw lawer gwaith pan oedd angen rhwymo traethodau ymchwil, MA ac ati, fel y byddai Gwyn yn falch o'm gweld a'm croesawu i'r ffatri. Bu ynglwm â'r cwmni hwn am 35 o flynyddoedd, a hynny mewn cyfnodau o lwyddiant a chyfnodau pan oedd trafferthion yn ei wynebu. Ar ôl hyn bu yn gwneud gwaith gwirfoddol yn Shiel Street a hefyd gyda W. H. Smith yn Speke.**

**Ar ôl datgorffori capel Anfield Road yn 1974 daeth Gwerfyl a Gwilym yn aelodau i'n capel yma ym Methel, Heathfield Road lle y cawsom wasanaeth clodwiw ganddynt. Ers rhai blynyddoedd yr oeddynt wedi symud o Anfield i Tullimore Road a daeth Gwyn yn rhan annatod o'n bywyd cymdeithasol. Byddwn yn cynnal**



**Dosbarth Dysgu Cymraeg ar Nos Wener a chawsom cwmni Gwyn am nifer fawr o flynyddoedd. Roedd na gnewyllyn oedd yn dod i'r Dosbarth blwyddyn ar ôl blwyddyn, fel Glyn Hughes, ac yr oedd Gwyn yn eu plith. Roedd ganddo gariad mawr at yr iaith; ac yr oedd ganddo lawer iawn o eirfa a dealltwriaeth fel y sylweddolodd yn fuan iawn. Bu llwyddiant ei Dad yn ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982 yn destun balchter iddo, a threfnais gyfarfod i'w longyfarch yma ym Methel, a gallaf weld y bodlonrwydd ar wyneb Gwyn pan oeddem yn canmol camp Gwilym.**

**Bu yn gefnogol dros ben i holl gyfarfodydd cerddorol a gynhaliwyd gennym, ac yr oedd felly hefyd yn ei gefnogaeth i Undeb Gorawl Cymry Lerpwl. A bu marwolaeth sydyn ei dad ar Chwefror 1992 yn dirdynnol iddo. Gofynnwyd i mi fynd lawr i'w fflat yn Jericho Lane i'w gysuro yn ei golled ac i aros tra y deuai Hugh a'i fam o'r Cilgwri. Amser nad anghofiaf oedd hyn. Roedd ei rieni wedi bod yn ddewr i'w adael i gael ei le ei hun, ac yn y mannau y bu fyw, yn Aigburth a Heswall, gwnaeth ei hun yn hynod o boblogaidd gan ei gymdogion. Meddai ar ysbryd annwyl, gostyngedig ac yn dyner ei ymateb a bob amser yn meddu ar barch aruthrol tuag at eraill.**

**Bu yn ofalus iawn o'i fam, ef a Hugh, a gofalent amdani yn ei henaint, ni chafodd neb o famau'r ddaear gwell meibion na'r ddau fab. Ac ar ôl marwolaeth ei fam yn Gorffennaf 2015, yn fuan iawn, soniodd wrthyf am ei afiechyd ef ei hun. Gwynebodd ar y cancr gyda hyder a ffydd gan gadw'n ffyddiog ac yn llawn gobaith. Bu yn hynod o ffodus o'i frawd a'u cynorthwyodd hyd y diwedd a'i ddymuniad oedd cael gwasanaeth tebyg i'r gwasanaeth a gafodd ei rieni a hynny yng nghapel Bethel, Heathfield Road.**

**Daeth tyrfa gref ynghyd i'r gwasanaeth ar ddydd Mawrth. 20 Tachwedd am 12 o'r gloch ac yna am 1 o'r gloch yn Amlosgfa Springwood, a hynny o dan fy ngofal. Talodd ei frawd Hugh Jones deyrnged ddidwyll iddo ac ychwanegais innau goffâd i'w goffadwriaeth. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs Margaret Anwyl Williams, a gwahoddwyd y galarwyr i fod gyda'r teulu a ddaeth o Gymru a Lloegr yng nghlwb golff Woolton. Felly cawsom gwmniaeth dros luniaeth.**

***D. Ben Rees***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mawrth 2019** erbyn bore Gwener, 1 Chwefror, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Ebrill 2019 –** erbyn bore Gwener, 1 Mawrth, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar 1 Chwefror, 2019.
- **Rhifyn Mai 2019** – erbyn bore Llun, 1 Ebrill, 2019 gan y bydd y cyfan yn sach y postman am Gymru erbyn hanner dydd y diwrnod hwnnw.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf, 2019***

# *Dathlu Pen-blwydd 'Elan y Wladfa' yn 90 mlwydd oed*



Gorwyres i un o arloeswyr y Wladfa ym Mhatagonia ydyw Mrs Elan Jones, Mossley Hill a threfnodd ei theulu barti i'w ffrindiau Cymraeg a Saesneg yn Lerpwl a'r Cyffiniau, a hynny yng Nghlwb Golff Woolton ar Sadwrn, 17 Tachwedd. Bu'r Cymry yn gwsmeriaid da i'r Clwb yn 2018, pedair gwaith y trefnwyd digwyddiadau o ddathlu. Sadwrn braf, 17 Tachwedd oedd y dydd y daethpwyd at ein gilydd am ddwy awr a hanner o gymdeithasu, cofio, gwledda a chanu. Gosodwyd ni yn y cyweirnod addas yng ngeiriau ei Gweinidog ers 50 mlynedd, Dr. D. Ben Rees, ef wedi cydweithio a'r teulu pan oedd Emrys ac Elan yn cadw Tŷ Capel, Heathfield Road, ger Penny Lane.

Llywyddwyd gan Sonia Jones, yr unig un o'r plant sy'n byw yn y ddinas bellach. Cafwyd croeso y teulu yn ei chyfarchiad.

Gwahoddodd Richard Jones, Hwlffordd ei fam i dorri y deisen a gwnaeth hynny gyda geiriau dethol o ddiolchgarwch. Braf oedd gweld y mab ieuengaf Alun a'i deulu o Norwich yn bresennol, bu'n rhaid i'r mab arall, David ddychwelyd amser cinio i Lundain gyda'i gyfrifoldebau.

Cododd y dyrfa hardd fel y gweler yn y llun ar eu traed i gymeradwyo gwraig a roddodd y Wladfa ar y map yn Lerpwl, a hi a ddadorchuddiodd y maen ger Doc Princes i gofio Mimosa 1865 yn 2015.

Offrymwyd gweddi ddwys o ddiolch am Elan Jones ym Methel ar 18 Tachwedd.



*Y ferch Sonia*




*Teisen Pen-blwydd*

*Lluniau: John G. Williams*
*Stori: Un a oedd yno*



*Elan Jones yn naw deg gyda'r mab hynaf, Richard*



*Alun a'i fam*


**Dyma'r gyntaf mewn cyfres o erthyglau byr gan Dr Pat Williams i gyflwyno dyrnaid o lenorion enwog i ddarllenwyr *Yr Angor:***

# T. H. PARRY-WILLIAMS

Mae'n debyg mai ystwythder a symlrwydd ymddangosiadol ei iaith i ddisgrifio profiadau pob dydd, ac i fynegi sylwadau treiddgar sydd yn bennaf gyfrifol am boblogrwydd T H Parry-Williams. Yn wir, mae rhai o'i ymadroddion wedi mynd mor gyfarwydd i'r cyhoedd â diarhebion, adnodau o'r Beibl neu linellau o waith Shakespeare, e.e. 'Nid yw pawb yn gwirioni'r un fath' neu 'Beth ydwyt ti a minnau, frawd / Ond swp o esgyrn mewn gwisg o gnawd?'

Ef oedd y bardd cyntaf i ennill y gadair a'r goron yn yr un eisteddfod, a hynny ddwywaith (Wrecsam, 1912 a Bangor, 1915). Fe gredir mai cerdd fodernaidd gyntaf yr iaith Gymraeg yw ei bryddest, 'Y Ddinas' a enillodd iddo y goron yn Eisteddfod Bangor, er gwaethaf anghymeradwyaeth Eifion Wyn, ar y sail ei bod yn ymwneud ag anfoesoldeb a bryntni. Er i Parry-Williams gyhoeddi nifer o gerddi unigol mewn gwahanol gylchgronau, ni ymddangosodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth tan 1931, ac yntau'n 44 oed, ond drwy hunan-sensoriaeth lem, ni chynhwysodd ynddi nifer o'i gyfansoddiadau cynnar. Yn soned agoriadol y gyfrol mae'n ymddiheuro am ddiarddel y cerddi hyn, ei "wrthodedigion llwyd", fel y'u gelwir. Erbyn hyn roedd wedi dewis y rhigwm a'r soned fel ei hoff fesurau; a'r soned gyda'r tro gofynedig yn yr ail hanner yn arbennig o effeithiol i fynegi'r ddeuoliaeth yn ei agwedd at nifer o bynciau.

Y dylanwad mwyaf arno oedd ei fagwraeth yn Eryri. Roedd ei gartref yn golygu llawer i Parry-Williams, ac yn ei soned, 'Tŷ'r Ysgol', mae'n dweud bod y teulu wedi cadw'r lle hyd yn oed ar ôl i'w rieni farw, er mawr syndod i rai. Mae'n cyfiawnhau'r penderfyniad drwy ddweud, 'Onid rhag ofn i'r ddau sydd yn y gro / synhwyro rywsut fod y drws ynghlo?' Yn wir, mae hyd yn oed y profiadau a gawsai ym mhen draw'r byd yn annigonol o'u cymharu â'r hyn a gofiai am fro ei febyd. Yn ei gerdd 'Ym Mwlch Mecsico' dywed, 'Ni ddysgodd y truan eto mai hud / Enwau a phellter yw gweld y byd'. Eto yng nghanol storm a ddisgrifiodd yn ei gerdd 'Pasiffig', fe'i arweinir yn ôl at ei blentyndod a dywed, 'Ond gwn i mi ddysgu nad oes brad / Yn ystyr d'enw yn ysgol fy nhad'. Mae'r brogarwch hwn yn y pen draw yn ei arwain i amgyffred Cymru gyfan, fel y gwelir yn 'Hon', efallai y fwyaf adnabyddus o'i gerddi i gyd. Ar ddechrau'r gerdd mae'n mynegi ei anniddigrwydd â Chymru, sydd ar y



llwyfan rhyngwladol yn wlad rhy ddibwys i neb boeni amdani, ond yn y diwedd mae'n datgan na allai ei gwadu.

Er mai fel bardd yr adnabyddir T H Parry-Williams yn bennaf, roedd testunau ei draethodau doethurol yn ymwneud ag iaith, a chyhoeddodd nifer helaeth o ysgrifau darllenadwy iawn yn mynegi ei sylwadau ar fywyd. Er iddo ddod i amlygrwydd ym mlynyddoedd cyntaf yr 20fed ganrif, mae ei waith yr un mor berthnasol heddiw, ac mae ei ddylanwad i'w weld ar nifer fawr o feirdd a ddaeth ar ei ôl.

**Pat Williams**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 11

# *YN Y GWAED*

***gan Alun Pari Huws***



*Alun Pari Huws yn llywio y Charles Henry Ashley*

Beth sydd yn siapio ein cymeriadau tybed? Wrth i fi fynd yn hŷn, efallai bod yr ateb yn gliriach; bod o leiaf peth o'r ateb yn gorwedd rhywle yn y gwaed.

Pan roeddwn yn ystyried ceisio am waith yn fy hwyr arddegau, mynd i'r môr oedd ar fy meddwl, h.y. dilyn fy nhad. Ond, nid oedd hynny am fod, oherwydd diffyg ar y llygaid. Llwyddais cael swydd efo Banc Midland serch diffyg sicrwydd cyfeiriad o ran gyrfa. Beth doeddwn ddim yn gwbl ymwybodol ohono oedd bod tri bancwr wedi bod yn y teulu yn barod. Un o'r tri oedd Alun Denman fu'n glerc efo banc y Midland yn Lerpwl. Un arall oedd Eddie Denman a gychwynnodd ei yrfa yn Lerpwl ond aeth ymlaen i fod yn Reolwr Cyffredinol yn Martins Bank yn Llundain – dyn crand y teulu! Bu'r brodyr ynghyd a'i pedair chwaer (un, Sarah, oedd Mam fy nhad) wedi cael ei magu mewn tŷ bach yn Toxteth Park – y teulu o Res y Cae yn wreiddiol. Bu'r Denmans yn flaenllaw yn capel Grove Stree,t Lerpwl am flynyddoedd maith. Y trydydd oedd Towyn Roberts, perthynas i fy Mam ac yntau yn reolwr efo Banc y Midland.



*Gwilym Pari Huws, RAMC, 1915-1919*

Mae fy ffydd yn holl bwysig i fi a mae llinell cryf o ffydd Cristnogol yn y teulu ym mhob cyfeiriad. Yr oedd fy hen daid, Parch William Pari Huws, yn un o chwech o frodyr; bu farw un yn ifanc ond o'r lleill, bu tri yn weinidogion; William Pari Huws, Dolgellau, Gruffydd Parry Hughes, Morfa Nefyn a Roland Hughes, Minny Street, Caerdydd. Onibai am y rhyfel mawr, dw i ddim yn amau basa fy nhaid, Gwilym, hefyd wedi mynd i'r weinidogaeth ond wedi gwario y rhyfel efo'r RAMC, dilyn meddyginiaeth y gwnaeth.

Efallai o fy nhaid, Gwilym Pari Huws, y meddyg a bardd, mae ffynhonell fy niddordeb mewn achau; yn enwedig achau teuluol ac achau morwrol. Mae ei cofodion helaeth mewn ysgrifen bach - anodd yw ddarllen ar adegau – yn adlewyrchiad o werth papur ar y pryd a'i brofiad yn y rhyfel mawr lle roedd cymaint yn cael ei ysgrifennu mewn llyfyr nodyn bychain mewn poced tiwnig. Mae wedi gadael trysor o atgofion ac un o dyddiau 'ma mi ga i amser yw ddarllen yn fwy manwl!

Nid oes gennyf hynny o ddawn cerddorol ond digon i gyfrannu efo'r piano, llais, gitâr a dryms ar fore dydd Sul yn yr Eglwys. Yn sicr nid o Dad daeth y ddawn yma! R'oedd cerddoriaeth yn ran mawr o fywyd Mam a plentyndod ni'n plant. R'oedd fy Nain, Dilys, hefyd a dawn a diddordeb, hithau wedi canu mewn corau yn aelwyd ardal Llandudno dros nifer o flynyddoedd. Mae'r ddawn yn amlwg yn fy mhlant a plant fy mrawd a rydym yn ymfalchïo yn hyn.

Heb os, fy niddordeb mwyaf yw pethau sy'n ymwneud â cychod a'r môr. Yr eironi yw bod fy hen daid, William Pari Huws, wedi croesi môr Iwerydd i fynd i Prifysgol Yale, fy Nhaid wedi gwario ei amser yn y rhyfel ar fwrdd llongau ysbyty a fy Nhad wedi hwylio ar draws y byd yn ystod ei yrfa yn y llynges Masnachol ond minnau heb hwylio yn bell o gwbl! Mae chwilota o gwmpas yr arfodir yn ddigon i fi – yn cwch fy nhad, 'Glaslyn' neu ar hen fad achub Cemaes, y Charles Henry Ashley neu, o bryd i'w gilydd ar fwrdd rhyw gwch arall. Hefyd, rwyf y wirfoddolwr efo'r gwasanaeth bad achub brenhinnol – fel swyddog nid aelod o'r criw - ond mae'r cyfraniad yma yn rhoi boddhad ac yn caniatáu i brofiad morwrol a profiad rheoli gyd-fynd. Basa Dad yn synnu dim. Felly, oes halen yn y gwaed?




*Eddie Denman, Martins Bank*



*Gwyn Pari Huws*



*Alun Denman, Midland Bank*



*Y Brodyr Pari Huws – Rowland, Robert, Gruffydd, Williams a John*

# NOSON Y DYSGWYR YNG NGHAPEL BETHEL
## gan Sian Hartley

Ar nos Lun 26ain o Dachwedd yn y Ganolfan yng Nghapel Bethel, Lerpwl, cynhaliwyd Noson y Dysgwyr o dan nawdd Cymdeithas Lenyddol Bethel a chafwyd noson ddifyr gyda'r dysgwyr am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Wedi i Dr D Ben Rees groesawu pawb yn gynnes i'r noson, cawsom gyflwyniad gan Arweinydd y grŵp, Mike Farnworth, sydd ei hun yn ddysgwr. Cafodd dderbyniad brwd i'w ddatganiad fod blwyddyn arall wedi mynd heibio a "ry'n ni yma o hyd". Roedd yn amlwg fod pawb yn mwynhau ei gyfeiriad difyr i gan enwog Dafydd Iwan. Clywsom fod 19 aelod wedi bod yn y grŵp yr wythnos gynt, bod llawer o aelodau yn gyfarwydd i bawb ond bod yna nifer o wynebau newydd hefyd. Soniodd hefyd am y llyfrgell newydd i'r dysgwyr sydd wedi ei agor yn y Capel eleni ac anogodd ni i beidio "taflu hen lyfrau mas!" Cadwer y trysorau.

Yr eitem gyntaf gan y dysgwyr oedd gan y dechreuwyr llwyr. Mae Gareth Jones yn arwain y grŵp yma (gydag ychydig o gefnogaeth gan Sian Hartley). Soniodd Sian fod gan bawb sydd yn dod i'r dosbarth eu hoff le yng Nghymru a bod aelodau o'r grŵp am ateb cwestiynau am eu hoff le arbennig nhw. Cyflwynodd Gareth ei hun yn chwareus fel Terry Wogan a siaradodd efo tri aelod o'r grŵp sef Angela, Peter a Sue. Roedd gan y gynulleidfa ddiddordeb i glywed tipyn am hoff lefydd y dechreuwyr. Soniodd Angela am sut roedd Trefriw yn ei chymryd hi'n ôl i natur lle roedd hi'n gallu cerdded i fyny'r bryn i'r ddau lyn yng nghanol y goedwig. Siaradodd Peter am Aberystwyth a sut roedd o wedi ei weld ar ei orau ac ar ei waethaf. Roedd yn hoff iawn o'r dref pert, hanesyddol ar lan y môr, yn enwedig y 'sgod a'r sglodion'. Siaradodd Sue am Fryncrug ble mae ei mab a'i deulu yn byw. Y dysgwr olaf o'r dechreuwyr oedd Matthew sydd dim ond yn 16 oed ac wedi dechrau dod yn ddiweddar efo'i Daid, Dafydd Jones. Mae'r ddau yn byw yn Lerpwl. Roedd Dafydd yn faciwî yn Nyffryn Nantlle pan yn blentyn ar ôl cael ei eni yn Ne Lloegr. Atebodd Matthew yr un cwestiynau ond gan ei Daid. Siaradodd am Ddinas Dinlle ac fel mae o wedi mwynhau mynd yno pob blwyddyn o'i fywyd. Roedd yn amlwg i bawb yn y gynulleidfa fod Cymru, yn enwedig eu hoff le yng Nghymru, yn golygu cryn dipyn i bob un o'r dechreuwyr llwyr.

Nesaf cawsom araith gwahanol iawn gan Gareth Wyn Davies, cyn Ymchwiliwr Gwarchodaeth *(Security Investigator)* i HSBC. Fel rhan o'i waith roedd rhaid iddo edrych i mewn i droseddau yn erbyn y banc. Siaradodd am dri achos arbennig y bu'n ymchwilio yn ystod ei 30 mlynedd yn y swydd. Roedd y tri achos yn ddoniol dros ben a chafodd Gareth gymeradwyaeth fawr am ei ddull o adrodd y stori Yn y stori gyntaf sydd yn rhoi blas o naws y storïau eraill, roedd lleidr wedi dod i mewn i un cangen a rhoi nodyn ar gefn amlen i'r arianwraig heb ddweud dim. Gan fod y nodyn yn dweud fod gan y dyn wn, dilynodd yr arianwraig y cyfarwyddiadau ar y nodyn, sef rhoi ei holl papurau punt i mewn i fag cynfas a'i roi i'r lleidr. Wedi i'r lleidr adael, dangosodd yr arianwraig y nodyn ar yr amlen i'r rheolwr. Wedi darllen y nodyn, trodd drosodd yr amlen a gweld stamp, enw a



***Gareth ac Eryl***

chyfeiriad ar yr ochr arall. Ffoniodd y rheolwr yr heddlu ac aeth swyddogion yn syth i'r cyfeiriad ac arestio'r lleidr nad oedd yn gallu deall sut roedden nhw wedi gwybod mai fo oedd y lleidr!

Yr eitem nesaf oedd can gan y grŵp cyfan gyda'r gynulleidfa yn cyfrannu trwy ganu yn y cytgan. Gofynnodd Sian wrth bawb pwy oedd yn cofio'r Tebot Piws a phwy oedd wedi bod i gyngerdd i weld y Tebot Piws, un o'r grwpiau pop cyntaf yn y Gymraeg o ddiwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau. Roedd nifer yn eu cofio ond dim ond Sian a Norma Owen oedd wedi eu gweld nhw yn perfformio'n fyw, Sian yn y Pafiliwn yn Rhyl a Norma yn yr Eisteddfod. Dim ond gan Sian oedd yr eitem yn y drydydd cwestiwn, sef poster gwreiddiol o'r Tebot Piws o'r saithdegau. Mae Mike yn dweud y gallai hwn fod yn werth tipyn heddiw! Siaradodd Gareth Jones am y gân 'Blaenau Ffestiniog' gan y Tebot Piws. Soniodd am y dryswch mae geiriau fel 'mas' ac 'allan', 'nawr' neu 'rwan', 'llaeth' neu 'llefrith' yn gallu peri i ddysgwyr. Dywedodd fod y gan 'Blaenau Ffestiniog' yn sôn am yr hiraeth mae rhywun sydd yn byw yn y De yn gallu cael o'r Gogledd ac yn mynegi yr hiraeth yma ond mewn ffordd bywiog a digrif iawn. Yna, cymerodd Gareth ei gitâr a'i ail rôl am y noson, sef rôl Dewi Pws Morris, canwr arweiniol Y Tebot Piws. Gyda llais swynol dros ben, canodd Gareth y penillion gyda'r dysgwyr a'r gynulleidfa i gyd yn ymuno yn y cytgan.

Rhag ofn fod rhai ohonoch erioed wedi c1ywed am y gan o'r blaen, dyma'r cytgan:

*'O rwy'n mynd 'nôl i Flaenau Ffestiniog,*
*Rwy'n dala'r trên cynta mas o'r dre.*
*o rwy'n mynd 'nôl i Flaenau Ffestiniog,*
*Canys yno mae fy seithfed ne'.'*

Roedd yr eitem nesaf yn wahanol iawn, sef darlleniad o gerdd Lois Arnold o'r llyfr 'Ffenestri' i ddysgwyr. Adroddodd Chris Bolton y gerdd 'Mynd i'r Eisteddfod' mewn ffordd brwdfrydig a naturiol iawn. Mae'r gerdd yn llawn hiwmor a mynegodd Chris hyn yn effeithiol iawn. Cafodd y bennill olaf dderbyniad gwerthfawrogol.

*'Nawr bant a fi i'r Eisteddfod,*
*mae fy nhocyn wythnos 'da fi.*
*Gwela i chi yno gobeithio -*
*ond cofiwch eich welis, da chi!'*

Sgets oedd yr eitem nesaf, wedi ei seilio ar y stori 'Y Cwis' allan o'r llyfr 'Ffenestri' gan Lois Williams. Roedd Dr Pat Williams wedi cwblhau addasiad effeithiol iawn. Adroddodd Carole y stori a chyflwynodd y grŵp berfformiad difyr iawn. Mi fyddai unrhyw un sydd wedi cymryd rhan mewn cwis tafarn yn

gwerthfawrogi yr hwyl sydd i'w gael mewn achlysuron tebyg pan mae aelodau'r timau yn cael yr atebion yn anghywir. Yn ogystal â hyn, roedd yna hiwmor yn seiliedig ar y tensiwn rhwng y timau a rhwng aelodau'r timau, yn enwedig rhwng un gŵr a gwraig oedd yn ffraeo o hyd a hefyd gwraig oedd ar fin cael babi ac yn teimlo'n anesmwyth iawn. (Roedd rhaid bod yna!!) Defnyddiwyd hyd yn oed effeithiau sain gyda ffôn symudol yn canu dwy waith ar yr amser priodol!

Ar ôl miri mawr y sgets, cawsom ychydig o fyfyrdod ond eto efo tinc o hiwmor gyda darlleniad Peter Cynwyd (Newton-le-Willows) o limrig wedi ei ysgrifennu gan Mike Farnworth. Fel pob un o'r eitemau, roedd hwn yn berfformiad effeithiol eto. Dyma'r limrig gyda chyfieithiad wedi ei ddarparu gan Mike ei hun:

*'Bob nos Lun dw i'n dysgu yn galed*
*Mae'r gwersi Cymraeg yn ddiarbed*
*Ar ôl y gwersi*
*Y peth gorau i fi*
*Yw sgwrs yn y gegin dros baned'*

*'Every Monday night I study hard*
*The Welsh lessons are merciless*
*After the lessons*
*The best thing for me*
*Is a chat in the kitchen over a paned'.*

Diolchodd Mike i bawb am gymryd rhan ac i'r gynulleidfa am fod mor gefnogol. Diolchodd bawb, yn enwedig Dr Rees, am y gefnogaeth mae'r dysgwyr yn derbyn o hyd gan y gymuned Gymraeg yn Lerpwl. Cyfeiriodd Mike hefyd am ffaith anhysbys am Dr Rees. Ef oedd y person cyntaf i recordio'r Tebot Piws yn Lerpwl ar ddiwedd y chwedegau! Felly mae Dr Rees yn gallu ychwanegu 'peiriannydd recordio' i restr hir ei alwedigaethau! Diolchodd Dr Rees i bawb am gymryd rhan a soniodd ychydig am ei yrfa byr fel peirannydd sain pan fu'n ceisio recordio'r grwpiau pop cynnar Cymraeg i gwmni *Recordiau'r Ddraig* a sefydlwyd ganddo yn 1969.

Daeth y noson i ben yn hapus iawn fel arfer gyda phaned wedi ei baratoi gan y chwiorydd.

## *GWLEDD I'R CYMRY CHWEFROR 2019*

***yn y Ganolfan (Canolfan y Cymry) Auckland Road / Heathfield Road, Lerpwl L18 0HX (can llath o Allerton Road, Church Road / Penny Lane)***

**CHWEFROR 2019**

**Nos Fawrth, 5**
Elfyn Llwyd, Llanuwchllyn yn rhoddi argraffiadau ar fywyd Seneddol gan y bu ef yn cynrychioli Plaid Cymru fel Aelod Seneddol Meirionnydd. Bydd ei briod Eleri Llwyd yn canu rhai o'i chaneuon adnabyddus. Llywydd: Dr. John Williams.

**Nos Fawrth, 12**
Noson y Llywydd: Mr. Roderick Owen.
Datgelir y trysorau y noson honno.

**Nos Fawrth, 19**
Noson ar ***Bêl-droedwyr y Rhyfel Byd Cyntaf***
gan Gari Pritchard.

***Bydd y ddwy Gymdeithas yn edrych ymlaen i Nos Wener, 1 Mawrth 2019 sef Cinio Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff Woolton.***

*Myfyrdod*

# Y GRAWYS

Mae'r Grawys yn adeg o gyfle. Credaf, os ydym yn yr ysbryd iawn fedrem roi ein sylw yn gyfangwbl ar y digwyddiadau mawr ym mywyd Iesu Grist. Yn ogystal, fedrem roddi eu priodoldeb i'n bywyd ni ein hunain. Dyma'r adeg i afael ar y cyfle i dyfiant ysbrydol.

Anrheg gras yw tyfiant mewn bywyd ysbrydol ond mae'r gras yn dod os ydym wedi darparu ein hunain ar ei gyfer i'w dderbyn. Credaf, yn fy henaint, nad yw bywyd defosiynol yn dibynnu ar aml eiriau mewn gweddi er engraifft. Yn wir, dydy ansawdd bywyd ddim yn dibynnu, ar nifer o oriau a munudau a rhoddir mewn gweddi a myfyrdod OND yn y modd rydym yn barod i gymeryd ac ufuddhau, yn y modd rydym yn barod i gydweddu a gwneud, yn bwysicaf fyth y modd yr ydym yn gwylio ac aros. Mae'n rhaid dweud fel Samuel gynt "Dywed, Arglwydd, mae dy was yn clywed".

Mae disgwyl a gwylio ar Dduw yn mynnu ar ddisgyblaeth a chysegriad gan ganolbwyntio ar rhain ond efallai fel dywedodd Hamlet "Ay, there's the rub". Mor anodd onid yw? – gan feddwl mor galed yw i ganolbwyntio ar bethau ysbrydol oherwydd yr ydym yn meddwl am y broblem o fyw – problemau fel dyledion, costau byw a phethau dibwys yn tynnu'n sylw. Problemau sy'n "*human*" a dim yn "bechodau". Mae disgwyl, fel dywedais, yn anodd ac fe gawn adegau mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ac mae hyn yn anodd eto i'r rhai sy'n ceisio byw i Grist. A gaf i roi profiad personol i chi?

Sôn a wnaf am Weinidog yng Nghaerleon ar Wysg lle roeddwn yn y coleg hyfforddi athrawon. Yn aml fe ddeuai i'r coleg i gadw gwasanaeth ac yn aml ambell Seiat neu gyfeillach. Dyn annwyl iawn a chyda "broad outlook on life" ac yn ddiddorol dros ben. Cofiaf un tro iddo sôn am "Waiting for God" ac yn dweud bydd adegau'n dod pan ddaw ar draws llwybr bywyd lawer o gwestiynau a buasai rhywun mewn penbleth pa gyfeiriad i gymeryd. Beth wnewch chi? A ddylech chi syrthio i ddyfnderodd annobaith? A ddylech chi droi'n ôl mewn llwrfdra neu ofn neu mynd ymlaen mewn anwybodaeth? Yn ostyngedig iawn fe awgrymodd ein bod yn DISGWYL mewn gweddi ac i alw ar Dduw. "Ni wrthodir neb a ddaw" ac wedyn DISGWYL mewn ffydd ac i ddangos i'r Duw anfeidrol bod gennych yr hyder mwya ynddo ac eich bod yn barod i DDISGWYL mewn amynedd distaw iddo Ef. Ni anghofiaf ei eiriau olaf "He never lets anyone down, you know". Gwir y dywedodd.

**ELWYN PARRY**

**Cysylltwch â'r**
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
**dbenrees@gmail.com**

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

Chwefror 2019_Layout 1 29/01/2019 10:46 Page 14



**Hyfryd gweld hen blant Ysgol Sul Heathfield Road yn cael aduniad.**
**Ar y chwith- Eirian Hughes Parry, Gwenan Haf Owen, Ceri Rogers.**
**Ar y dde :- Mair Hughes Parry, Delyth Rogers, Sian Roberts.**



*Iona James a Glenys Johnson yn mwynhau paned y Dolig*



*Cinio Nadolig Cymry Lerpwl yn Woolton*
*Tair Myfyrwraig – Eva, Mared a Rebecca*



*Joshua yn edrych ar Thus a Myrr yn oedfa Bore Nadolig*

**Lluniau gan**
**John G. Williams a**
**Roderick Owen**